

CYDLYNYDD A HYFFORDDWR GWIRFODDOLWYR

MEMO TRECELYN

Disgrifiad Swydd a Manylion Ymgeisio

MAWRTH 2024

MEMO



HYFFORDDWR A CHYDLYNYDD GWIRFODDOLWYR

LLEOLIAD	Trecelyn / gweithio hybrid yn bosibl
STATWS	Cyfnod Penodol 1 flwyddyn
ORIAU	3 diwrnod yr wythnos (22.5 awr)
PATRWM GWAITH	Hyblyg
CYFLOG	£23,800 pro-rata (£14,280 gwirioneddol)

Cefndir

Mae Sefydliad Glowyr Celynen a Neuadd Goffa (yn masnachu dan yr enw Newbridge Memo Ltd) yn elusen gofrestrdedig (Rhif elusen 1137112).

Wedi'i leoli yn Nhrecelyn yng Nghymoedd De Cymru, mae Newbridge Memo yn sefydliad hanesyddol i lowyr ac mae bellach yn ganolfan celfyddydau cymunedol amlbwrpas. Mae gennym lyfrgell, ystafelloedd darllen, ac un o'r enghreifftiau gorau o sinema art deco gyda neuadd ddawns a theatr fach. Mae'n gartref i nifer o denantiaid llawn amser, gan gynnwys Llyfrgell Trecelyn (Llyfrgelloedd Cyngor Sir Caerffili), Swyddfa Etholaeth leol Rhiannon Passmore a NONaffArt, cydweithfa gelf.

Mae'r Memo, gyda'i theatr 446 sedd art deco, neuadd ddawns a manau cyhoeddus eraill, yn anelu at fod yn sefydliad celfyddydau / diwylliannol ffyniannus ac mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Tîm yn chwilio am berson sydd â'r weledigaeth a'r ysfa i gefnogi'r trawsnewid hwn wrth inni baratoi am ganmlwyddiant yr adeilad yn 2025.

Mae'r swydd hon wedi ei chynnig â chefnogaeth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Prif bwrpas y Swydd

Mae gan Newbridge Memo dîm bach ond ymroddedig ac rydym am ychwanegu swydd ran-amser newydd gyffrous at ein tîm.

Gyda chyfrifoldeb am weithredu rhaglen wirfoddoli gadarn a gwerth chweil, bydd yr hyfforddwr a chydlynnydd gwirfoddolwyr yn cydweithio ag eraill i sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cyd-fynd â'n nodau sefydliadol, gan gyfrannu'n gyfartal at les y tîm gwirfoddol a phrofiad gwirfoddoli cadarnhaol. Bydd dull tîm cyfan o ddylunio a datblygu'r rhaglen yn sicrhau bod yr holl staff yn deall ac yn gwerthfawrogi'r prosiect, a fydd yn cyfrannu at y prosiect i sicrhau ei fod yn cyflawni ei nodau.

Bydd y rhaglen yn datblygu grwpiau cymorth cymheiriaid a rhwydwaith cefnogwyr gwirfoddol. Credwn y gellir defnyddio cymorth gan gymheiriaid I helpu gyda iechyd meddwl unigolyn a hefyd i i gefnogi pobl i feithrin eu sgiliau, eu hyder a'u gwytnwch eu hunain wrth weithio gyda grwpiau amrywiol gan gynnwys y rhai ag anableddau dysgu neu gorfforol, dementia, pobl hŷn, gofalwyr, plant a phobl ifanc a'r rhai ag iechyd meddwl gwael.

Yn adrodd i	Y Rheolwr Ymgysylltu Cymunedol
--------------------	--------------------------------

Cyfrifoldebau

Bydd yr hyfforddwr Gwirfoddolwyr yn:

1. Creu rhaglen wirfoddoli amrywiol bositif, sy'n ganolog i hunaniaeth y Memo ac sy'n cael ei deall gan bawb.
2. Recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr a pharu cymheiriaid mewn rolaum gan ddarparu hyfforddiant, cefnogaeth a goruchwyliaeth 1:1.
3. Cynnal y ffeiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf yn unol â'r Rhaglen Gwirfoddoli.
4. Galluogi datblygiad y grŵp, gan nodi anghenion cymorth neu addasiadau a fydd yn galluogi pobl sydd â phrofiad byw i ddod yn wirfoddolwyr a hwyluswyr cymheiriaid.
5. Datblygu prosesau sy'n cydnabod ac yn mynd i'r afael â rhwystrau i gynhwysiant mewn gwirfoddoli ac yn darparu adnoddau i gefnogi gwirfoddolwyr.
6. Helpu gwirfoddolwyr gyda'u hiechyd a'u lles, trwy gydberthnasau cefnogol â mentoriaid cymheiriaid sy'n galw ar eu profiad byw eu hunain o heriau iechyd meddwl i helpu eraill.
7. Darparu'r sgiliau angenrheidiol i wirfoddolwyr greu perthynas gadarnhaol a boddhaus â grwpiau o bobl ynysig yn y gymuned.
8. Gweithio gyda'r Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymuned i fapio anghenion, blaenoriaethau, a chydlynu amserlenni ar gyfer rheoli ac ymsefydlu cymheiriaid a gwirfoddolwyr newydd, gan ddyfeisio rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau wedi'u teilwra i hyrwyddo cysylltiadau rhwng cymheiriaid.
9. Cadw canllawiau cyfredol, arfer gorau, a gweithdrefnau ar gyfer y Rhaglen Wirfoddoli.
10. Cydlynu digwyddiadau sy'n dangos cydnabyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r gwirfoddolwyr, gwerthfawrogiad a digwyddiadau cwrdd â'r gwirfoddolwyr.
11. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill a allai fod yn ofynnol yn y swydd.

Ymgeisydd Delfrydol:

Hanfodol

Profiad o'r canlynol:

- Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n cefnogi llwybrau i addysg, hyfforddiant, a swyddi neu achrediad.
- Rheoli anghenion a disgwyliadau ystod eang o bobl o gefndiroedd ac anghenion amrywiol;
- Trefnu, rheoli a chyflwyno rhaglenni gwirfoddoli o fewn sefydliad.
- Cefnogi gwirfoddolwyr ag anghenion amrywiol a chymhleth weithiau gyda'u hiechyd meddwl a'u lles, gan ddilyn ac adrodd ar gyllidebau

Cymwyseddau a Rhinweddau

- Angerddol dros alluogi pobl i gyflawni eu potensial
- Diddordeb gwirioneddol mewn o leiaf dau o'r meysydd canlynol: Y celfyddydau, treftadaeth ac ymgysylltu â'r gymuned

Galluoedd

- Gweithio'n annibynnol a rheoli amrywiaeth o dasgau ar yr un pryd
- Datblygu a darparu hyfforddiant a chefnogaeth i wirfoddolwyr
- Cyfathrebu ar lefel wahaniaethol gydag amrywiaeth o bobl
- Meithrin perthynas â gwirfoddolwyr, staff, sefydliadau partner a chyrrff gwirfoddol
- Y gallu i ddiogelu plant ac oedolion bregus
- Mynd ati i gynllunio'n strategol

Dull gweithio

- Rhagweithiol a hunan-drefnus

- Cydweithredol ac yn meddwl am yr atebion
- Hyblyg ac addasadwy
- Yn canolbwyntio ar bobl, ac yn cydymdeimlo

Sgiliau

- Sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu ardderchog
- Gallu TG a sgiliau digidol da
- Dealltwriaeth o, ac ymrwymiad i, cyfle cyfartal ac amrywiaeth
- Sgiliau sefydliadol ardderchog
- Sgiliau arwain cryf gyda'r gallu i ysgogi ac annog eraill

Dymunol

- Hyfforddiant, addysg neu brofiad perthnasol mewn cefnogi neu reoli gwirfoddolwyr.
- Profiad o weithio ym maes datblygu cymunedol treftadaeth gelfyddydol
- Profiad o weithio gyda'r cyhoedd, gan gynnwys oedolion bregus a/neu blant a phobl ifanc
- Sgiliau Cymraeg

Bydd angen gwiriad DBS uwch

Pam gweithio i'r Memo?

- 32 diwrnod o wyliau y flwyddyn gan gynnwys Gwyliau Banc (pro-rata ar gyfer staff rhan-amser)
- Cyfleoedd ar gyfer tocynnau am ddim i staff
- Rydym yn gefnogol iawn i'n staff gael cydbwysedd hapus rhwng bywyd a Gwaith, ac yn cynnig gweithio hyblyg pan fo'n bosibl.
- Cyfleoedd hyfforddiant mewnol ac allanol
- Amgylchedd tîm cyfeillgar a chefnogol

SUT I WNEUD CAIS

Dylid gwneud ceisiadau yn amlinellu'r hyn sy'n eich denu i'r swydd hon a thystiolaeth o'ch gallu i fodloni'r meini prawf a amlinellir yn yr adran Ymgeisydd Delfrydol,

Rydym yn hapus i dderbyn yr uchod mewn sawl ffordd:

- Datganiad Ysgrifenedig (dim hirach na 2 ochr o A4) neu;
- Fideo (hyd at 3 munud)

Ynghyd â'r uchod, atodwch CV cyfredol ac atodwch ein Ffurflen Cyfle Cyfartal.

Ebostiwch eich cais at:

paula.harris@newbridgememo.co.uk

neu drwy'r post, at

Newbridge Memo Ltd d / o Paula Harris, Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymuned, Newbridge Memo, Stryd Fawr, Trecelyn, NP11 4FH

erbyn **6pm, 18 Ebrill**

Dyddiad Cau 6pm, 18 Ebrill

Cyfweliadau i'w cynnal yn w/d **18 Ebrill (i'w gadarnhau)**

Dyddiad cychwyn delfrydol: Ebrill/Mai 2024

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y rôl, neu os oes angen y cais arnoch mewn fformat gwahanol, cysylltwch â Paula Harris, Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymuned, Newbridge Memo Ltd,

paula.harris@newbridgememo.co.uk neu ffoniwch 01495 366931.